# Prif Weithredwraig y Gronfa Treftadaeth, Ros Kerslake CBE i adael ddiwedd 2021

20/07/2021



Mae Ros Kerslake CBE wedi cyhoeddi y bydd yn gadael ei rôl fel Prif Weithredwraig Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar ddiwedd 2021.

Yn ystod ei phum mlynedd gyda'r Gronfa Treftadaeth mae Ros wedi arwain nifer o raglenni trawsnewid mawr, gan gynnwys Fframwaith Ariannu Strategol newydd, strwythur a brand sefydliadol a llywodraethu, yn ogystal â gwaith ar werthoedd a diwylliant.

> Yn ystod y pum mlynedd diwethaf rwyf wedi bod mor falch o fod wedi bod yn rhan o'r holl gyflawniadau anhygoel rydym wedi'u gwneud o ran cefnogi ein treftadaeth a'n cymunedau.
>
> *Ros Kerslake, Prif Weithredwraig y Gronfa Treftadaeth*

Mae wedi arwain ein hymateb i'r pandemig, gan gynnwys £50 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol i gefnogi treftadaeth, a lansiwyd o fewn wythnosau i ddechrau'r argyfwng. Yna arweiniodd y Gronfa Treftadaeth wrth symud yn gyflym i ddosbarthu cyllid brys ar ran dwy adran o'r Llywodraeth am y tro cyntaf yn ei hanes. Cafodd ei chyfraniad i dreftadaeth ei gydnabod gyda gwobr CBE yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines y llynedd.


Ros Kerslake ar ymweliad ag Alexandra Palace yn 2019

Dywed Ros: "Pan ddeuthum yn Brif Weithredwraig dywedwyd wrthyf mai dyma'r swydd orau ym maes treftadaeth ac mae hynny'n bendant yn wir. Credaf mewn nerth treftadaeth i newid bywydau pobl, ac yn ystod y pum mlynedd diwethaf rwyf wedi bod mor falch o fod wedi bod yn rhan o'r holl gyflawniadau anhygoel yr ydym wedi'u gwneud o ran cefnogi ein treftadaeth a'n cymunedau.

"Rwy'n gadael gyda chalon drom , ond rwy'n teimlo, ar ôl cyflawni'r strategaeth a nodais pan ymunais, mai dyma'r adeg iawn i rywun arall i arwain y Gronfa Treftadaeth ymlaen i'r cam nesaf. Rwyf wedi pendroni  ers peth amser, ar ôl i'n Cadeirydd newydd gael ei benodi a setlo i mewn i'w rôl, ei bod yn amser da i symud ymlaen. Rwy'n gwybod fy mod yn gadael y Gronfa Treftadaeth mewn cyflwr gwych o dan arweinyddiaeth Simon, ac y bydd yn mynd o nerth i nerth."

Bydd Ros yn parhau yn ei rôl fel Prif Weithredwr tan ddiwedd eleni ac mae'n "fusnes fel arfer" tan hynny. Mae'n awyddus i gael mwy o amser i ddatblygu diddordebau a chynlluniau eraill i ddatblygu portffolio gyrfa. Bydd Prif Weithredwr newydd yn cael ei recriwtio cyn bo hir.

> Rwy'n si?r fy mod yn siarad ar ran pob un ohonom wrth ddweud bod Ros wedi bod yn Brif Weithredwraig ysbrydoledig ac arloesol.
>
> *Dr Simon Thurley, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr*

Dywedodd Dr Simon Thurley, a ymunodd â'r Gronfa Treftadaeth yn gynharach eleni fel Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr: "Rwy'n si?r fy mod yn siarad ar ran pob un ohonom wrth ddweud bod Ros wedi bod yn Brif Weithredwraig ysbrydoledig ac arloesol, byth yn fwy felly nag yn y ffordd yr arweiniodd ymateb y Gronfa Treftadaeth i'r argyfwng y llynedd. Mae'r hyn y mae wedi'i gyflawni, yn enwedig

wrth droi'r sefydliad i ddarparu cyllid brys i'r sector, wedi bod yn rhagorol ac mae llawer ar draws y diwydiant sy'n hynod ddiolchgar iddi."



## ...ddordeb hefyd mewn ...



### [Chief Executive welcomes £1.57billion Government funding package for]

### [Chief Executive awarded CBE in Queen’s Birthday Honours]